**Rhif: WG49179**

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoleiddio Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 - Cofrestr Darparwyr Addysg Drydyddol – Rheoliadau Cychwynnol

Ebrill 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL 2024 © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion polisi a rheoliadau drafft yn ymwneud â sefydlu'r gofrestr darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022. Bydd y rheoliadau, pan gânt eu gwneud, yn galluogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, unwaith y bydd yn weithredol, i sefydlu'r system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg drydyddol addysg uwch yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 31 Hydref 2023 a 5 Chwefror 2024. Denodd 21 o ymatebion, yn bennaf gan sefydliadau, ac roedd y rhain wedi'u lleoli yng Nghymru'n bennaf.

ISBN: 978-1-83577-672-8

## Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Rheoleiddio Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru: [Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru [HTML] | LLYW.CYMRU]

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:
Y Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: PCETReform@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: https://www.gov.wales/register-tertiary-education-providers-initial-regulations

# Cynnwys


**Y Cefndir** Error! Bookmark not defined.
**Strwythur yr ymgynghoriad** **6**
**Ynglŷn â'r dadansoddiad** Error! Bookmark not defined.
**Crynodeb o'r Ymatebion** Error! Bookmark not defined.

## Y cefndir

Fe wnaeth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ddarparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn').

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Un o amcanion polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yw sefydlu sail ddeddfwriaethol effeithiol, gadarn a chynaliadwy ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol.

Ni all darparwyr y cyllidir eu darpariaeth addysg uwch gan ffioedd dysgu yn bennaf gael eu rheoleiddio trwy delerau ac amodau'r Comisiwn yn unig gan fod taliadau ffioedd dysgu yn ymrwymiad cytundebol rhwng darparwyr a'u myfyrwyr. Felly, blaenoriaeth gynnar i'r Comisiwn fydd datblygu system goruchwylio rheoleiddiol ar gyfer y darparwyr hyn.

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, ac i'r gofrestr gael ei sefydlu a'i chynnal gan y Comisiwn.

I ddechrau dim ond darparwyr addysg uwch fydd yn gymwys i wneud cais i gael eu cofrestru gyda'r Comisiwn, ac felly hwn fydd yr unig grŵp o ddarparwyr a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru ar y cychwyn cyntaf.

Bydd y gofrestr a'r amodau cofrestru cysylltiedig yn darparu porth rheoleiddio ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch darparwyr cofrestredig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru a mynediad at gyllid gan y Comisiwn. Yn ogystal, mae Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu ar eu rhan.

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cysylltiad rhwng y gofrestr a phwerau'r Comisiwn i gyllido ystod o addysg drydyddol yn ogystal ag ymchwil ac arloesi. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn i gyllido categorïau o ddarparwyr cofrestredig a bennir mewn rheoliadau at ddiben cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr o'r fath, ynghyd â chynnal ymchwil neu arloesi.

Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr nad ydynt wedi cofrestru sy'n dibynnu ar gyllid gan y Comisiwn i ddarparu eu darpariaeth addysg drydyddol, trwy delerau ac amodau cyllido. Bydd darparwyr addysg bellach neu hyfforddiant yn cael eu rheoleiddio drwy'r mecanwaith hwn i ddechrau. Fodd bynnag, bydd angen i ddarparwyr addysg bellach sy'n dymuno i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gofrestru gyda'r Comisiwn.

Nid yw'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr addysg uwch mewn perthynas â ffioedd dysgu neu gostau cynhaliaeth. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch perthnasol darparwyr addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i bennu materion yn ymwneud â sefydlu a gweithredu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd y gofrestr a'r amodau cofrestru cysylltiedig yn darparu'r fframwaith statudol i'r Comisiwn ar gyfer goruchwylio gweithgareddau darparwyr addysg drydyddol cofrestredig.

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion polisi a rheoliadau drafft yn ymwneud â sefydlu'r gofrestr darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022. Bydd y rheoliadau, pan gânt eu gwneud, yn galluogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, unwaith y bydd yn weithredol, i sefydlu'r system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg drydyddol addysg uwch yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 31 Hydref 2023 a 5 Chwefror 2024. Denodd 21 o ymatebion, yn bennaf gan sefydliadau addysg ac roedd y rhain wedi'u lleoli yng Nghymru'n bennaf.

Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ategol ar-lein ac ymateb i bob un o'r cwestiynau drwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein. Cawsom 16 o ymatebion e-bost; ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r post a chyflwynwyd 5 ffurflen ar-lein. Agorwyd 8 ffurflen ar-lein arall ond ni chawsant eu cyflwyno'n ffurfiol; cyflwynwyd dwy o'r ffurflenni hynny drwy e-bost wedi hynny. Cafodd y 6 arall eu heithrio o'r dadansoddiad gan nad oedd modd gofyn am ganiatâd i'w cynnwys gan na ddarparwyd manylion cyswllt.

Ni atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn, a rhoddodd rai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Yn yr achos hwn, rydym wedi cynnwys eu hymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol.

## Strwythur yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 18 cwestiwn a oedd yn ymdrin â gwahanol agweddau ar sefydlu'r gofrestr a'r system oruchwylio reoleiddiol gysylltiedig ar gyfer darparwyr addysg drydyddol addysg uwch yng Nghymru. Roedd yn cynnwys cwestiwn penodol a oedd yn gofyn am farn rhanddeiliaid am deitlau'r categorïau cofrestru, a oeddent yn cytuno â'r wybodaeth arfaethedig y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod y darparwr yn y gofrestr a chwestiynau ynghylch digonolrwydd amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus pellach.

Roedd cwestiynau pellach yn gofyn am farn rhanddeiliaid am yr egwyddor o bennu amlder asesiadau ansawdd addysg uwch mewn rheoliadau, trefniadau pontio pe bai darparwyr yn cael eu dadgofrestru a chwestiynau am effeithiau ariannol, cost a

manteision. Mae cwestiynau hefyd yn ymwneud ag effaith y cynigion ar gyfle cyfartal a'r Gymraeg.

I gefnogi'r ymgynghoriad, cynhaliwyd dwy sesiwn friffio ar y system gofrestru (22 a 30 Tachwedd 2023). Nod y sesiynau hyn oedd

- rhoi trosolwg o ddiben y system gofrestru a'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori
- darparu cyd-destun ac esboniad pellach ynghylch y cynigion hynny
- esbonio'r camau nesaf.

Prif amcan y sesiynau hyn oedd cynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall diben yr ymgynghoriad a galluogi rhanddeiliaid i ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac ymateb i'r ymgynghoriad.

**Ynglŷn â'r dadansoddiad**
At ddibenion dadansoddi, cafodd yr holl ymatebion eu cadw'n ddiogel. Pan nodwyd cytundeb, cofnodwyd manylion yr ymatebwyr ynghyd â manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, ac nid oedd pob un ohonynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Lle nad oedd sylwadau'n dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad, ni chawsant eu cynnwys. Roedd ymatebion naratif hefyd lle na wnaeth ymatebwyr nodi pa gwestiwn roeddent yn cyfeirio ato ac, yn aml, ni wnaeth yr ymatebwyr gwblhau'r blychau ateb ar gyfer cwestiynau penodol. Dadansoddwyd yr ymatebion hyn a, lle'r oedd yr adborth yn berthnasol, cafodd ei gynnwys yn y crynodeb o dan y cwestiwn priodol.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw'n ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, ond mae'n tynnu sylw at y themâu allweddol. Mae crynodeb o'r prif themâu a phenawdau o'r ymatebion wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon a bydd yn helpu i lywio'r polisi.

# Crynodeb o'r Ymatebion

## Cwestiwn 1 – Rydym wedi rhoi enwau dros dro i'r categorïau cofrestru sef "Addysg Uwch Craidd" a "Addysg Uwch Amgen". Ydych chi'n cytuno â'r teitlau hyn, neu a oes gennych awgrymiadau eraill?

**Nifer yr ymatebion: 17**
Cytuno: 10
Anghytuno: 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 5

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod enwau'r categorïau yn dderbyniol. Nodwyd y byddai angen i'r Comisiwn allu nodi manteision, rhwymedigaethau a gofynion rheoleiddio yn glir ar gyfer pob categori. Roedd ymatebwyr yn credu bod angen i'r Comisiwn gael yr hyblygrwydd i alluogi pob math o ddarparwyr i geisio

cofrestru a chaniatáu ar gyfer unrhyw reoleiddio pellach y gallai fod ei angen. Mynegwyd pryder y gallai fod dryswch ynghylch enwau'r categorïau gan y gallai darparwyr sy’n ystyried eu hunain yn ddarparwyr 'amgen' ar hyn o bryd ddewis cofrestru yn y categori 'Craidd'.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn credu bod y term 'amgen' yn awgrymu rhywbeth ail orau neu sy'n cynnig addysg o werth llai. Cynigiodd un o'r ymatebwyr hyn y dylai'r term 'arbenigol' ddisodli teitl y categori 'Amgen' gan y byddai hyn yn adlewyrchu'r syniad bod y sefydliadau hyn yn bodloni'r un ansawdd a safonau â darparwyr y categori 'Craidd'. Nodwyd bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn defnyddio'r term hwn eisoes ar gyfer ffurflenni Prevent.

Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, ynghyd â'r rhan fwyaf o sylwadau (cytuno) eraill, yn credu bod y term categori 'Craidd' yn glir ond bod angen diffinio'r categori 'Amgen' yn glir. Roedd rhai o blaid ymgynghoriad pellach hefyd pan fyddai manylion gweithredol am gymhwyso'r categorïau yn hysbys.

Yn fwy cyffredinol, byddai rhanddeiliaid yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y bwriedir i'r categorïau arfaethedig weithio.

## Cwestiwn 2 - A ydych yn cytuno â'r wybodaeth awgrymedig sy'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y gofrestr? A oes unrhyw gynnwys arfaethedig y dylid ei ychwanegu neu ei dynnu o'r rheoliadau?

**Nifer yr ymatebion: 17**

Cytuno: 15
Anghytuno: 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 0

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r wybodaeth awgrymedig a dull Llywodraeth Cymru o beidio â bod yn rhy ragnodol, gan alluogi'r Comisiwn i bennu gofynion pellach a lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr. Gofynnodd rhai am yr angen i'r wybodaeth gael ei diweddaru'n rheolaidd, gan awgrymu cylch blynyddol. Cafwyd ceisiadau hefyd am eglurder ynghylch y termau 'trefniadau is-gontract' a darpariaeth wedi’i ‘breinio’ a darpariaeth wedi’i ‘dilysu’.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno, fel rhai o'r ymatebwyr eraill a oedd yn cytuno, am i ystyriaeth gael ei rhoi i gynnwys yr wybodaeth ychwanegol ganlynol yng nghofnod darparwr yn y gofrestr:

- gofyniad sylfaenol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau cydraddoldeb
- egluro ei ddarpariaeth Gymraeg
- y math o bwerau dyfarnu graddau sydd gan sefydliad.
- gwybodaeth am niferoedd staff a myfyrwyr
- manylion unrhyw gampysau y tu allan i Gymru

- “Prif leoliad gweithgareddau," yn unol â geiriad y prawf statudol ynghylch a yw'r darparwr "yng Nghymru" ai peidio
- statws "Sefydliad" (ac a yw'n cael ei ddynodi'n un gan Lywodraeth Cymru o dan y rheoliadau Dynodi)
- yr enw 'Cyfreithiol', manylion enwau blaenorol/newidiadau i enw
- math o gwmni/ffurf gyfreithiol cyfansoddiad e.e. Siarter Frenhinol, Corfforaeth Addysg uwch ac ati
- strwythurau corfforaethol/grŵp
- dogfennau llywodraethu a manylion y corff llywodraethu
- amodau cofrestru sy'n gymwys ac unrhyw amodau cofrestru penodol a osodwyd
- rhifau cyfeirnod darparwr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)
- nodi'r holl reoleiddwyr e.e. Gofal Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer rhaglenni proffesiynol a rheoledig a gynigir gan y darparwr.

Awgrymwyd y dylai'r cyfeiriad at 'drefniadau breinio' gael ei ddisodli gan 'addysg a ddarperir gan ddarparwr arall ar ei ran,' gan ganiatáu hyblygrwydd i'r Comisiwn weithio drwy'r diffiniadau ymhellach.

Er na ddylid ei ragnodi yn y rheoliadau na’i gyhoeddi, awgrymwyd y gallai'r Comisiwn ystyried gwneud dyfarniadau ar y cyd neu ddeuol gyda darparwr arall yn ofynnol, a/neu a yw'n defnyddio asiantau at ddibenion recriwtio myfyrwyr i'w cynnwys fel gwybodaeth yng nghofnod darparwr yn y gofrestr.

Nodwyd sylwadau y gallai'r Comisiwn ystyried dull y Swyddfa Fyfyrwyr yn y dyfodol i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gofrestr ar gyfer rhanddeiliaid allweddol a darpar fyfyrwyr. Fodd bynnag, ar y dechrau, dylai'r gofrestr ganolbwyntio ar hanfodion rheoleiddio.

## Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno y dylid cynnwys y ddau amod cychwynnol pellach arfaethedig yn y rheoliadau?

**Nifer yr ymatebion: 16**
Cytuno: 14
Anghytuno: 0
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 2

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys y ddau amod arfaethedig yn angenrheidiol ac yn briodol. Roedd cefnogaeth i statws elusennol fod yn amod o'r categori cofrestru 'Craidd'. Nodwyd cais am eglurhad ynghylch y gofyniad statws elusennol, yn cynnwys darparwyr sydd â statws elusen eithriedig a chais i'r Swyddfa Fyfyrwyr gael ei hychwanegu at y rhestr o gyrff fel rheoleiddiwr elusennau.

Cododd yr ymatebwyr bryderon y dylai gofynion ychwanegol ar gyfer cydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr fod yn gymesur ac y dylai unrhyw newidiadau fod yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch sut y

byddai'r cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r amod cofrestru hwn yn cydblethu rhwng y Comisiwn a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Codwyd hyn yng nghwestiwn 5 hefyd.

Er bod un ymatebydd yn cytuno â'r amod sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, roedd yn pryderu am y gofynion adnoddau ychwanegol a osodwyd ar y Comisiwn nad oeddent yn cael eu cwmpasu gan y cyllidebau presennol, a rhybuddiodd yn erbyn y Comisiwn yn rhoi ei hun mewn sefyllfa o ymgyfreitha posibl yn erbyn disgwyliadau afrealistig. Aeth ymlaen i awgrymu y dylai'r amod hwn gael ei ohirio nes i'r Comisiwn gael cyfle i ystyried gweithdrefnau cwyno myfyrwyr a chwmpas cynllun Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol. Roedd un arall yn gefnogol iawn y dylai'r amod hwn fod yn berthnasol i'r categorïau Addysg Uwch Craidd ac Addysg Uwch Amgen.

Rydym wedi nodi bod un ymatebydd, nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, wedi cwestiynu wrth ystyried effeithiolrwydd y trefniadau dilysu ar gyfer darparwyr amgen faint y byddai disgwyl i'r sefydliad dilysu ei gyfrannu at y broses gofrestru.

## Cwestiwn 4 – A oes unrhyw amodau cychwynnol pellach eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau?

**Nifer yr ymatebion 17**

Oes 4
Nac oes 12
Ansicr 1

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y dylai amodau cofrestru cychwynnol pellach gael eu pennu yn y rheoliadau.

Nododd yr ymatebwyr hynny a atebodd 'oes' y meysydd pryder canlynol y dylid eu cynnwys:

- Darpariaeth ran-amser (o fewn y system gofrestru gyfan);
- Darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011);
- Cadarnhad bod y darparwr yn gallu cael ei oruchwylio gan gyrff strategaeth eraill y DU hefyd megis yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch;
- Ymrwymiad dangosadwy i 'sero net' i sicrhau cymaroldeb rhwng cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol;
- Cynnwys amod eang sy'n mynd i'r afael â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys amodau penodol sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag aflonyddu ymhlith staff a myfyrwyr a gweithredu gweithdrefn gwyno briodol, dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys bylchau cyflog rhwng y rhywiau a chaffael.

Roedd rhai o'r ymatebwyr a atebodd 'nac oes' yn teimlo mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am amodau cychwynnol pellach, gan roi'r hyblygrwydd iddyn nhw yn hytrach na bod amodau o'r fath yn cael eu rhagnodi yn y rheoliadau.

Nododd ymatebydd arall y byddent yn croesawu ymgynghoriad pellach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am ddarpariaeth ran-amser ac unrhyw ffurfiau newydd o gyllid cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

## Cwestiwn 5 – A ydych yn cytuno â'r amodau parhaus gorfodol pellach a gynigir i'w cynnwys yn y rheoliadau?

**Nifer yr ymatebion 15**
Cytuno 10
Anghytuno 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 3

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys y tri amod parhaus gorfodol pellach ar gyfer cofrestru. Roedd un ymatebydd o'r farn bod yr amod sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am y darparwr, ei gyrsiau a'i delerau ac amodau contractau gyda myfyrwyr yn bwysig. Cododd ymatebydd arall bryderon na ddylai'r amodau parhaus wrthdaro â chyfrifoldebau i gyrff eraill heb gytundeb ymlaen llaw (e.e. darparu data UCAS).

Fel yng Nghwestiwn 3, gofynnwyd am eglurhad bod y gofyniad statws elusennol yn cynnwys y prifysgolion hynny sydd â statws elusennol eithriedig.

Gofynnwyd am eglurhad pellach hefyd, pan fydd mwy o fanylion ar gael, ar y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a beth fydd y canlyniadau mesuradwy mewn perthynas â chyfle cyfartal. Dylid nodi bod darpariaeth ar gyfer amodau cofrestru parhaus ar gyfer y materion hyn yn cael ei darparu eisoes gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 ac, o ganlyniad, nid yw'n fater i'w gynnwys yn y rheoliadau drafft.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno ac un ymatebydd a oedd yn cytuno o'r farn bod dyblygu rhwng amod cofrestru parhaus 31(1)(f): “hysbysu newidiadau i wybodaeth yn y gofrestr" ac amod parhaus pellach: “hysbysu newidiadau mewn statws fel Darpariaeth Addysg Drydyddol yng Nghymru", ac awgrymwyd y dylai'r ail amod uchod gael ei ddileu neu ei gynnwys yn llawn yn y gofynion gwybodaeth statudol. Roedd ymatebydd arall a oedd yn anghytuno o'r farn, er bod darpariaeth yn yr amodau cofrestru parhaus gorfodol ar gyfer dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, nad oes cyfeiriad penodol at ddysgwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn credu bod yr amodau parhaus gorfodol pellach yn ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, yn ôl un ymatebydd, gellid dehongli bod "cael canlyniadau mesuradwy mewn perthynas â chyfle cyfartal sy'n ymwneud â chynyddu cyfranogiad, cynyddu cyfraddau cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a darparu cymorth mewn perthynas â dysgwyr sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol" yr un fath â Chynllun Mynediad a Ffioedd. Awgrymodd yr ymatebydd hwn fod angen ailwampio'r trefniadau presennol mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad, a bod angen i'r broses yn y dyfodol fod yn addas ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch ac yn gymesur yn erbyn graddfa darpariaeth y darparwr.

## Cwestiwn 6 – A oes unrhyw amodau parhaus gorfodol eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau?

**Nifer yr ymatebion: 17**
Oes: 2
Nac oes: 13
Ansicr: 2

Ni allai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr feddwl am unrhyw amodau parhaus ychwanegol, ac roeddent yn gefnogol i'r Comisiwn gael hyblygrwydd i bennu unrhyw ofynion pellach unwaith y bydd y gofrestr wedi'i sefydlu.

Roedd un o'r ymatebwyr, nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, am i'r Comisiwn gasglu data cynhwysfawr i ddarparu tystiolaeth gadarn i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg orfodol ôl-16. Dylai'r Comisiwn bennu blaenoriaethau hefyd, gan ddefnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ac ehangu mynediad i grwpiau sydd â chyrhaeddiad addysgol a chyfraddau cyflogaeth is, gan gynnwys dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Croesawodd yr ymatebydd hwn yr amod parhaus gorfodol (y darperir ar ei gyfer gan y Ddeddf TER) mewn perthynas â chanlyniadau mesuradwy mewn perthynas â chyfle cyfartal, cynyddu cyfranogiad, cynyddu cyfraddau cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a darparu cymorth mewn perthynas â dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ond roedd o'r farn bod angen amod pellach.

Roedd ymatebydd arall am i'r Gymraeg gael ei chynnwys mewn amod parhaus gorfodol penodol. Cynigiodd un arall amod ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael ansawdd eu darpariaeth wedi'i asesu'n annibynnol i fodloni trothwy a bennwyd gan y Comisiwn. Nodwyd y dylai darparwyr sy'n cynnig addysg drawswladol barhau i gymryd rhan mewn cynllun sy'n bodoli eisoes i ddangos eu hymrwymiad i sicrhau a gwella ansawdd eu darpariaeth addysg drawswladol.

## Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau a gynigir ar gyfer adolygu penderfyniadau?

**Nifer yr ymatebion: 17**
Cytuno: 14
Anghytuno: 1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 2

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r trefniadau a gynigir ar gyfer adolygu penderfyniadau. Roedd un ymatebydd yn credu mai un o'r cryfderau oedd y byddai'r panel adolygu penderfyniadau yn annibynnol ar benderfynwyr y Comisiwn. Roedd yn fodlon â'r cynigion gan eu bod wedi'u modelu'n agos ar y trefniadau presennol o dan ddeddfwriaeth bresennol. Fodd bynnag, roedd yn credu y byddai'n ddefnyddiol adolygu rheoliad 9 i gynnwys dyletswydd benodol ar y Comisiwn i ystyried argymhellion a chanfyddiadau'r panel yn unol â'r trefniadau presennol. Codwyd

pryderon hefyd o ran adolygu rheoliad 5b(ii), fel na all darparwyr gadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol i ohirio camau rheoleiddio gan y Comisiwn.

Roedd yr ymatebydd, a oedd yn anghytuno, yn deall yr angen i ddarparu eglurder ar gyfer y broses, i'r canlyniad gael ei bennu mewn modd amserol a bod y cyfyngiadau 40 a 28 diwrnod yn cyd-fynd ag arfer safonol. Fodd bynnag, roedd ganddo amheuon a fyddai'r amserlenni hyn yn ddigonol pe bai'r Comisiwn yn penderfynu dadgofrestru darparwr. Nododd hefyd, pan fo adolygydd penderfyniadau'n argymell y dylai'r Comisiwn ailystyried penderfyniad, yr hoffai weld gofyniad yn cael ei roi ar y Comisiwn i ystyried y dystiolaeth a ystyriwyd gan yr adolygydd.

Roedd un o'r ymatebwyr, nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, yn credu bod y broses adolygu penderfyniadau yn ymddangos yn rhesymol ar yr amod bod amserlen ragnodedig i ddarparwr wedi'i ddadgofrestru gael ymateb gan y Comisiwn ar ôl iddo gyflwyno apêl. Nodwyd bod yr ymatebydd wedi codi'r un mater yng nghwestiwn 8.

## Cwestiwn 8 – A oes unrhyw faterion heblaw'r rhai a restrir y dylid galluogi'r Comisiwn i'w gorfodi os bydd darparwr wedi'i ddadgofrestru?

**Nifer yr ymatebion: 17**
Oes:  4
Nac oes:  9
Ansicr:  4

Ni nododd llawer o'r ymatebwyr a atebodd unrhyw faterion y tu hwnt i'r rhai a restrir. Ychwanegodd un ymatebydd y dylai'r darpariaethau a amlinellir, gan gynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr, fod yn ddigonol i alluogi addysgu myfyrwyr mewn modd trefnus. Nodwyd y gallai ychwanegu rhagor o fanylion mewn deddfwriaeth gyfyngu ar allu'r Comisiwn i weithredu yn ôl yr angen.

Cododd y rhai a atebodd 'oes' y materion canlynol:

- Dylid ystyried asesu ansawdd yn annibynnol ar derfynau ffioedd. Byddai'n bwysig parhau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth rhag ofn y bydd darparwr yn cael ei ddadgofrestru er mwyn sicrhau bod ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr yn cael ei gynnal i safon uchel.
- Yn y cynigion mae cyfnodau penodedig o amser i ddarparwr wedi'i ddadgofrestru gychwyn apêl a darparu dogfennaeth (darperir ar gyfer hynny mewn rheoliadau adolygu penderfyniadau). O ganlyniad, credwyd y dylai fod cyfnod diffiniedig pan ddylai darparwr dderbyn ymateb hefyd.
- Bydd gan ddarparwr sydd dan fygythiad o gael ei ddadgofrestru gyfnod o ansicrwydd mawr, gan gynnwys i'w fyfyrwyr, ymgeiswyr a staff, y gellir ei reoli a'i gefnogi'n well drwy fod ag amserlenni rhesymol a diffiniedig ar gyfer pob parti.

Gofynnodd ymatebydd arall am eglurhad ar y trefniadau pontio, yn enwedig o ran trefniadau ar gyfer cymorth ariannol, megis yr hyn a fydd yn digwydd i brosiectau a

gweithgareddau sy'n derbyn cyllid wedi’i gymeradwyo ymlaen llaw am nifer o flynyddoedd. Nododd yr ymatebydd hefyd fod angen ystyried effaith dadgofrestru ar bartneriaethau - e.e. gyda phartneriaid breinio, colegau, cyrff proffesiynol a phartneriaid eraill, megis mewn perthynas â darparu cyrsiau nyrsio, milfeddygol ac addysgu.

Ar y cyfan ni chynigiodd yr ymatebwyr a atebodd eu bod yn ansicr unrhyw faterion pellach. Nododd un ymatebydd mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd yn gweld yn glir y rheoliadau sy'n ymwneud â'r materion y dylid galluogi'r Comisiwn i'w gorfodi pe bai darparwr yn cael ei ddadgofrestru (y "trefniadau pontio”). Roedd o'r farn y byddai eglurder pellach yn arbennig o ddefnyddiol ar sut y byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda chyrff fel Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Nododd hefyd, pe bai darparwr yn cael ei ddadgofrestru, y byddai'n hanfodol bod trefniadau clir wedi'u cytuno i fyfyrwyr gwblhau'r cwrs y maent wedi'i gofrestru arno a bod y broses ddadgofrestru’n cael ei hystyried a'i rheoli'n ofalus mewn ffordd sy'n golygu bod digon o amser i wneud penderfyniadau ac i amddiffyn buddiannau myfyrwyr a chronfeydd cyhoeddus. Cododd un ymatebydd yr un pwynt yng nghwestiwn 7.

## Cwestiwn 9
## A ydych yn cytuno â'r egwyddor o wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol asesu ansawdd addysg uwch bob chwe blynedd o leiaf i gyd-fynd â'r gofynion statudol ar gyfer rhannau eraill o'r sector ôl-16 ac arferion cyfredol CCAUC a nodir yn ei fframwaith asesu ansawdd?

**Nifer yr ymatebion: 17**
Cytuno: 9
Anghytuno: 4
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 4

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mewn egwyddor â gwneud rheoliadau eang a bod â dull cyson o asesu ansawdd ar draws y sector ôl-16. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno, neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, o blaid cylchoedd asesu rheolaidd ond, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r sylwadau (cytuno) eraill, teimlent fod angen i'r Comisiwn fod â'r hyblygrwydd i bennu amlder y cylchoedd hynny.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys gwneud y cylchoedd yn fyrrach, adolygiad o gost yn seiliedig ar faint, niferoedd myfyrwyr ac ehangder y ddarpariaeth a defnyddio dull parhaus o wella asesiadau ar sail risg, a allai ddefnyddio llai o adnoddau. Roedd argymhelliad hefyd y dylid cynnal adolygiad o effeithiolrwydd asesu ansawdd ar gylch chwe blynedd.

Roedd llawer o'r farn bod angen ystyried faint o ragnodi sydd mewn rheoliadau, er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn i fabwysiadu dull hyblyg, yn enwedig o dan amgylchiadau megis uno neu bandemig. Ar ben hynny, efallai y bydd angen ymgynghori ar wahanol drefniadau sicrwydd ac arolygu ar gyfer darparwyr eraill yn y sector ôl-16 (er enghraifft, colegau addysg bellach sy'n cael eu rheoleiddio ar gyfer

darpariaeth addysg uwch, yn ogystal â derbyn cyllid ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau ac fel partneriaid mewn partneriaethau dysgu cymunedol i oedolion).

Awgrymwyd adolygiad canol cylch cychwynnol, yn ystod 2026-2027, ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant pellach i ystyried newidiadau posibl mewn trefniadau asesu ansawdd ar gyfer darparwyr addysg uwch cofrestredig ar gyfer y blynyddoedd academaidd dilynol. Yn yr un modd, awgrymwyd y gellid adolygu'r fethodoleg gwella ansawdd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Gwnaethpwyd pwynt bod angen i'r Comisiwn ystyried darparwyr a allai gael eu hasesu gan fwy nag un drefn ansawdd hefyd.

Nodwyd sylw hefyd yn ymwneud â'r angen i'r corff ansawdd dynodedig fod yn annibynnol ar y rheoleiddiwr.

## Cwestiwn 10 – A ydych yn rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau i'ch sefydliad yn deillio o'r rheoliadau neu'r system gofrestru?

**Nifer yr ymatebion: 17**.
Ydw 9/10*
Nac ydw: 2
Ansicr: 5/6*
*Roedd un ymatebydd wedi ateb 'ydw' ac 'ansicr' i'r cwestiwn hwn. Fel y nodir gyda'r seren i osgoi cyfrif dwbl, dim ond 1 ateb sydd wedi'i gyfrif yn y nifer cyffredinol o ymatebion a dderbyniwyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai goblygiadau o ran adnoddau i'w sefydliad.

Nododd y rhai a oedd yn cytuno y goblygiadau posibl canlynol. Bydd angen amser gweinyddol i gydymffurfio â'r system reoleiddio newydd ac ailgofrestru. Roedd un ymatebydd yn ystyried bod y dyraniad amser ac adnoddau gan uwch reolwyr o fewn sefydliadau'n arwain at gostau cyfle uchel. Rhoddodd ymatebwyr eraill ymatebion tebyg ynghylch amser ac adnoddau, a nododd un y byddai'r angen i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ei hangen ar y gofrestr yn effeithio ar y ddau fater. Fodd bynnag, roedd ymatebydd arall o'r farn mai dim ond mân gostau a fyddai'n gysylltiedig â chadw cofnod sefydliad yn y gofrestr. Nododd un ymatebydd y byddai gwneud cais cofrestru'n golygu bod angen adnoddau ychwanegol neu ailgyfeirio adnoddau presennol.

Nodwyd pryder am y risg bosibl i gynaliadwyedd sefydliadol pe bai adnoddau a chyllid ar gyfer addysg uwch yn cael eu lledaenu'n rhy denau oherwydd y dull newydd.
Cydnabuwyd gan rai na ddylai'r dull newydd roi baich sylweddol ar ddarparwyr sy'n cael eu rheoleiddio gan CCAUC ar hyn o bryd gan y bydd yn dileu'r angen i ailymgeisio am statws sefydliad rheoledig. Mewn cyferbyniad, efallai y bydd y sefydliadau addysg bellach hynny nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan CCAUC ar hyn o bryd yn wynebu rhywfaint o faich ychwanegol. Ystyrir bod y goblygiadau cost posibl i ddarparwyr 'nad ydynt yn ddarparwyr craidd' a darparwyr bach yn anghymesur o gymharu â darparwyr 'craidd'.

Yn y tymor byr, ystyriwyd y byddai galw ar ddarparwyr i ymateb i ymgynghoriadau ar y system gofrestru yn ogystal ag adnoddau staff ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r gofrestr. Bydd angen amser ac adnoddau hefyd i ddeall y system newydd yn ogystal â diweddaru'r wybodaeth ofynnol. Nodwyd bod y gofrestr yn gyfle i'r Comisiwn ac Estyn ystyried gwahanol drefniadau sicrhau ansawdd ac arolygu ar gyfer sefydliadau cofrestredig yn hytrach na'r trefniadau presennol ar gyfer darparwyr mewn sectorau ôl-16. Efallai y bydd gan hyn oblygiadau o ran adnoddau yn dibynnu ar y trefniadau newydd.

Cyflwynodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ansicr, fel y rhai a oedd yn cytuno, farn gyffredin y bydd maint y goblygiadau o ran adnoddau yn dibynnu i raddau helaeth ar y manylion sydd i ddod o ymgynghoriadau technegol pellach ar yr amodau cofrestru ar gyfer gwahanol gategorïau a mathau o ddarparwyr. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai hyn fod yn wir lle mae amodau cofrestru'n dechrau bod yn sylweddol wahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Nodwyd y byddai unrhyw newidiadau sylweddol yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr, yn enwedig y rhai sydd angen addasiadau i systemau presennol. Fodd bynnag, nodwyd bod baich y system reoleiddio bresennol wedi gostwng unwaith iddi gael ei deall.

Roedd un ymatebydd a atebodd 'nac ydw', fel darparwr rheoleiddiedig, yn rhagweld ychydig iawn o gost a biwrocratiaeth yn deillio o gofrestru gyda'r Comisiwn.

## Cwestiwn 11 –A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallem ei defnyddio i'n helpu i asesu costau a manteision gweithredu'r system gofrestru arfaethedig?

**Nifer yr ymatebion: 15**
Oes: 4
Nac oes: 7
Ansicr: 4

Atebodd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr 'nac oes' ac, o'r rheini, ni chynigiodd 5 unrhyw sylwadau pellach. Dywedodd un ymatebydd nad oedd ganddo unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd ond y byddai angen amser ac adnoddau staff i ddeall a gweithredu'r system newydd ac i gyflawni gofynion monitro. Roedd un arall yn credu ei bod yn amhosibl darparu tystiolaeth heb fanylion gweithredol pellach, ond roedd yn gweld budd ymgynghoriad pellach.

Darparodd y rhai a atebodd 'oes' dystiolaeth o brofiad. Cyfeiriodd un ymatebydd at ei brofiad o weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gan ddarparu costau staff presennol sy'n gysylltiedig â dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr, sicrwydd ariannol a llywodraethu, sicrhau ansawdd ac ymgysylltu ac ymyrraeth sefydliadol. Roeddent yn rhagweld cynnydd mewn cost ar gyfer yr adnodd staff ychwanegol a fyddai'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu'r system reoleiddio newydd ar sail Cofrestr. Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â system TG y Gofrestr hefyd, ac o bosibl cyngor cyfreithiol, er nad yw'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd. Cyfeiriodd ymatebydd arall at dystiolaeth mewn adroddiad, a gomisiynwyd gan Universities UK, a oedd yn edrych ar effaith baich rheoleiddiol cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr. Un o'i

ganfyddiadau oedd bod angen adnoddau sylweddol i ddeall a bodloni gofynion rheoleiddio. Canfu hefyd fod costau cyfle yn codi o'r baich rheoleiddio. Nododd yr un ymatebydd y bydd yn bwysig sicrhau bod rheoleiddio’n gymesur ac yn seiliedig ar risg, ac nad yw'n rhoi baich ychwanegol sylweddol ar ddarparwyr.

Roedd y rhai a oedd yn ansicr yn credu bod y sefyllfa'n rhy annelwig i'w deall ar hyn o bryd. Esboniodd un ymatebydd nad oedd ei ddadansoddiad cost a budd ei hun ar gael ar gyfer y system newydd, ond roedd yn rhagweld y bydd costau sylweddol ar y cychwyn ac yna costau parhaus wedi hynny. Bydd union lefel y gwaith yn cael ei bennu gan sut mae'r Comisiwn yn gweithredu'r gofynion newydd. Cyfeiriodd yr ymatebydd hwn at dystiolaeth a roddwyd gan Brifysgolion Cymru i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd. Bydd p'un a yw'r costau'n debyg ai peidio yn dibynnu i ryw raddau ar sut y caiff y rheoliadau eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn. Cyfeiriodd ymatebydd arall at y prosiect Dyfodol Data a arweiniodd at oblygiadau cost sylweddol i sefydliadau a'r posibilrwydd y gallai gynnig gwersi a ddysgwyd. Teimlai ymatebydd arall y dylid cydnabod bod gan ddarparwyr amgen dimau gweinyddol bach, felly bydd angen dod o hyd i adnoddau ychwanegol os yw'r baich gweinyddol yn tyfu'n sylweddol o dan y system newydd.

## Cwestiwn 12 – Ar wahân i ddarparwyr addysg uwch a'r Comisiwn, a oes unrhyw randdeiliaid eraill sy'n debygol o wynebu costau sy'n deillio o'r system gofrestru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? Os oes, rhowch fanylion y rhanddeiliaid yn y sylwadau ategol.

**Nifer yr ymatebion: 15**
Oes: 6
Nac oes: 2
Ansicr: 7

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ansicr, ni roddodd rhai unrhyw sylwadau, roedd un arall yn teimlo nad oedd yn glir ar hyn o bryd nes bod manylion y system gofrestru’n hysbys.

Roedd y rhai a atebodd 'oes' yn credu y gallai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgolion Cymru a Cholegau Cymru wynebu rhai costau anuniongyrchol a dewisol. O ystyried bod y system gofrestru’n rhan o system reoleiddio ehangach a fydd yn berthnasol hefyd i ddarparwyr sy'n cael eu rheoleiddio drwy delerau ac amodau cyllido, bydd darparwyr addysg drydyddol eraill yn cael eu heffeithio hefyd. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y gallai fod goblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau partner sy'n gweithio gyda sefydliadau cofrestredig, gan gynnwys y rhai mewn trefniadau breinio a dilysu, yn ogystal â chyrff sydd â chyfrifoldeb goruchwylio am fathau penodol o gyrsiau, er enghraifft, addysgu, nyrsio a gwasanaethau milfeddygol. Mae'r contractau a'r trefniadau ariannol sy'n sail i'r perthnasoedd hyn yn rhagflaenu'r gofrestr newydd, felly maent yn adlewyrchu gofynion rheoleiddio presennol. Nodwyd y gallai'r gofynion newydd effeithio ar gynnwys contractau a/neu gostau cyflenwi'r ddau sefydliad mewn trefniadau partneriaeth.

Bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, fel y partner cyflawni ar gyfer gweithredu'r cylch adolygu ansawdd addysg uwch, yn wynebu costau hefyd. Cyfeiriodd un ymatebydd at ei ateb i gwestiwn 10, ac roedd yn cydnabod yr angen am ddull cydlynol o ddatblygu addysg uwch yng Nghymru, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, ac roedd potensial i'r system gofrestru newydd arwain at wasgaru adnoddau sydd eisoes dan bwysau yn denau ar draws casgliad ehangach o ddarparwyr.

Er bod y cwestiwn yn ymwneud â sefydliadau heblaw darparwyr addysg uwch, nododd rhai ymatebwyr y potensial am faich gweinyddol ychwanegol i ddarparwyr addysg uwch 'amgen'. Dywedodd un ymatebydd y byddai baich gweinyddol ychwanegol ar sefydliadau 'nad ydynt yn sefydliadau craidd' ac y bydd rhaid talu costau hyn i ddarparu'r adnodd gweinyddol gofynnol. Roedd o'r farn y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu i bob pwrpas drwy orfod naill ai gynyddu costau i fyfyrwyr neu leihau lefel yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, nododd fod y gofyniad diweddar i adrodd data i HESA i gyflawni gofynion newydd CCAUC eisoes wedi golygu bod angen rhoi adnoddau staffio ychwanegol ar waith.

Gwnaethom nodi na wnaeth y rhai a atebodd 'nac oes' unrhyw sylwadau pellach

## Cwestiwn 13 – A ydych yn credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cynnwys yn y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

## Nifer yr ymatebion: 15

Ydw: 3
Nac ydw: 5
Ansicr: 7

Roedd sawl ymatebydd a atebodd 'ydw' ac 'ansicr' yn teimlo y gallai fod rhywfaint o effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, nid oedd graddau hyn yn glir ond gellid cael mwy o fanylion drwy asesiadau effaith ac ymgynghori pellach. Disgrifiodd ymatebwyr a oedd yn ansicr bwysigrwydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel gofyniad cyfreithiol, ynghyd â chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ynghyd â gwaith monitro ac adolygu cadarn parhaus.
Gan yr ymatebwyr a oedd yn ansicr, cynigiwyd trafodaethau pellach i ystyried ffyrdd amgen o sicrhau cydraddoldeb fel rhan o'r gofynion sylfaenol ar gyfer darparwyr addysg uwch sy'n cofrestru yn y categori amgen, ynghyd â'r effeithiau ar fyfyrwyr a darparwyr a allai fod yn destun Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Roedd cryn dipyn o ymatebwyr (ansicr) o'r farn y dylai addysg uwch ran-amser fod yn rhan annatod (o'r system gofrestru newydd) a bod â ffocws cyfartal ag addysg llawn amser. Gallai'r risg o beidio â gwneud hynny effeithio'n negyddol ar grwpiau

heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n fwy tebygol o ymgymryd ag addysg ran-amser (er enghraifft, dysgwyr aeddfed, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau gwledig ac anodd eu cyrraedd).

Roedd sylw pellach yn cefnogi cyllid statudol ar gyfer darparwyr addysg uwch amgen a allai gael effaith gadarnhaol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn ogystal, dylai cyllid fod ar gael i bob myfyriwr beth bynnag fo categori cofrestru ei ddarparwr.

Mewn perthynas ag addysg drawswladol, gofynnodd un ymatebydd i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn ystyried darpariaeth addysg drydyddol y darperir ar ei chyfer ym mamwlad myfyriwr, yn hytrach na lleoliad y darparwr, a'r effaith gysylltiedig bosibl ar addysg menywod a merched.

Roedd y rhai a ymatebodd 'nac ydw' o'r farn nad oedd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith.

## Cwestiwn 14
## A oes lle i unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu?

### Nifer yr ymatebion:  15

Oes: 3
Nac oes:  2
Ansicr: 10

Roedd yr ymatebwyr a atebodd 'nac oes' yn teimlo bod lle yn y cynigion i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda ag eraill. Cafwyd rhai ymatebion tebyg i'r rhai a grynhowyd o dan gwestiwn 13, gan gynnwys yr angen i integreiddio darpariaeth ran-amser i helpu i ehangu cyfranogiad. Soniodd un arall y gallai'r cynigion helpu i gefnogi lles staff a myfyrwyr fel rhan o'r amodau ar gyfer cofrestru, yn ogystal â helpu i wella mynediad, cyfraddau cadw a chyrhaeddiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
Awgrymodd ymatebydd arall a atebodd 'oes' y dylid cynnwys cyfle cyfartal fel gofyniad sylfaenol i gofrestru, yn ogystal ag amodau cofrestru parhaus gorfodol - gyda chanlyniadau mesuradwy sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Gallai cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol darparwr gynorthwyo tryloywder hefyd. Unwaith eto, fel yr ymatebion yng nghwestiwn 13, gall asesiadau cadarn o'r effaith ar gydraddoldeb gynorthwyo i gefnogi'r agenda hwn.

Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn ansicr o'r farn bod y cynigion yn gyfle i wella'r maes hwn ac roeddent yn edrych ymlaen at drafodaeth bellach a rhagor o fanylion wrth i'r broses ddatblygu.

Roedd sylwadau pellach gan ymatebwyr a oedd yn ansicr yn cynnwys awgrymiadau'n ymwneud â darparu bwrsariaethau i gefnogi'r agenda cydraddoldeb, yn ogystal â rhwymedigaeth darparwr bosibl i gefnogi ymgysylltu â'r gymuned. Dywedodd un arall fod gan weithrediad parhaus Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 y potensial i gryfhau'r agenda hwn, ynghyd â datblygu'r System Cwynion Dysgwyr a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Cafwyd rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn yng nghwestiynau 2 a 4 hefyd a chawsant eu cynnwys yma.

## Cwestiwn 15 – A oes unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o godi o'r rheoliadau ar grwpiau penodol o bobl neu leoedd penodol? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

### Nifer yr ymatebion: 14

Oes: 2
Nac oes: 4
Ansicr: 8

Roedd un ymatebydd a atebodd 'oes' o'r farn y gallai fod effaith negyddol ar sefydliadau llai, o ystyried eu potensial i ddenu dysgwyr ag anghenion gwahanol a'r risgiau posibl o ymdrin â system gofrestru feichus. Roedd ymatebydd tebyg (ansicr) o'r farn y gallai fod effaith negyddol anuniongyrchol ar ddarparwyr amgen, gan effeithio ar ffioedd myfyrwyr, os oes angen adnoddau ychwanegol i gydymffurfio â'r gofynion cofrestru.

Fel y soniwyd yn y crynodeb i gwestiwn 13, gallai fod effeithiau canlyniadol ar fenywod a merched, sy'n ymwneud ag addysg drawswladol.

Roedd un ymatebydd (nac oes) o'r farn y gallai'r amodau cofrestru gael effaith gadarnhaol ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ynghyd â defnyddio asesiadau effaith i lywio datblygiad y system reoleiddio.

Gwnaeth y rhai a oedd yn ansicr sylwadau ar faterion tebyg a grynhoir o dan gwestiwn 13, gan gynnwys yr angen i ddarpariaeth ran-amser fod yr un fath â darpariaeth llawn amser, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i ddysgwyr mewn lleoliadau gwledig. Roedd un o'r farn y byddai angen i unrhyw gyllid pwrpasol sy'n ymwneud â darpariaeth ran-amser a rheoliadau cysylltiedig fod yn gymaradwy, yn dryloyw ac yn drosglwyddadwy i bob darparwr.

Soniodd ymatebydd (ansicr) pellach am rôl asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o ran nodi unrhyw effeithiau negyddol a lliniaru camau gweithredu. Gofynnodd yr un ymatebydd a oedd dileu cynlluniau ffioedd a mynediad wedi'i asesu'n llawn ar gyfer Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ac roedd yn gweld hyn fel cyfle i archwilio unrhyw effeithiau negyddol yn ymwneud â'r newid hwnnw.

## Cwestiwn 16 – Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol cynnig yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl

**Nifer yr ymatebion: 15**

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn anodd deall ar hyn o bryd sut y gallai'r gofrestr gael effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd rhai yn cefnogi cynnwys amodau'n ymwneud ag ymrwymiad darparwr i'r iaith a dyletswyddau perthnasol, gyda'r potensial i gael effaith gadarnhaol.

Roedd y materion a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- Dylai sefydliadau ddangos eu hymrwymiad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a ddylai adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru gyda chanlyniadau mesuradwy.
- Nid oes unrhyw amodau cofrestru'n ymwneud â'r Gymraeg; roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r darpariaethau presennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol fod yn ddigonol, er bod rhai yn teimlo y gallai cynnwys amodau sy'n ymwneud ag ymrwymiad darparwr i'r Gymraeg gael effaith gadarnhaol. Yn ogystal, gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ynghyd â dyletswydd i hyrwyddo'r iaith, fel amod cofrestru.
- Gallai fod canfyddiadau negyddol os nad oes unrhyw ddulliau rheoleiddio i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, er y dylai hyn gael ei liniaru gan y dyletswyddau y mae'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn eu gosod ar y Comisiwn, a ddylai bennu sut mae'n cyflawni ei ddyletswydd strategol yn hyn o beth.
- Cafodd un ymatebydd ei siomi gan y diffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori ac roedd yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau safon o ddarpariaeth sy'n cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.
- Nododd eraill yr ymrwymiad i wella darpariaeth arloesol, gan weithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector, gan arwain at dirwedd fwy cydweithredol.
- Yr angen i gadw'r premiwm cyllido cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni.
- Bydd angen i'r gofrestr a'r canllawiau fod yn ddwyieithog.
- Mae angen gwella'r broses o alluogi darparwyr i ymgysylltu â materion rheoleiddio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd cydweithio â phartneriaid, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn hollbwysig.
- Mae recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu darpariaeth arbenigol yn debygol o fod yn broblem.

Crynhowyd nifer o ymatebion sy'n berthnasol i'r maes hwn mewn ymateb i gwestiynau eraill (gan gynnwys cwestiynau 4 a 2).

## Cwestiwn 17 - Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfer sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith

**Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

## Nifer yr ymatebion: 14

Yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 16, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i'r Gymraeg, ond roeddent yn ansicr nes bod rhagor o fanylion am y system gofrestru yn hysbys.

Roedd y materion a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r gefnogaeth barhaus i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, er bod rhai darparwyr bach neu amgen yn teimlo bod angen cymorth ariannol i'w cynorthwyo.
- Dylid annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dylai fod ymrwymiad i wella ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg a chyfleoedd i'r holl staff a myfyrwyr.
- Dylai fod cofnod clir a chynhwysfawr o ba ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd angen ystyried materion cymdeithasol a diwylliannol hefyd, ochr yn ochr â'r Gymraeg.
- Fel y nodwyd o dan gwestiwn 16, gallai'r Comisiwn gyflawni ei ddyletswydd strategol yn y maes hwn drwy amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus, yn ogystal ag amodau cychwynnol pellach.
- Bydd adolygiadau asesu o ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch yn cael eu cynnal i gefnogi'r system gofrestru, a byddant ar gael yn llawn neu'n rhannol yn y Gymraeg, os gofynnir amdanynt. Efallai y bydd goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau i reoleiddwyr gefnogi hyn.
- Dylid gofyn am sicrwydd bod y Comisiwn yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol mewn perthynas â hyrwyddo, caffael a gwella sgiliau Cymraeg.
- Mae gan y Comisiwn rôl o ran casglu gwybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg a byddai ymgysylltiad pellach â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hyn o beth yn hanfodol.
- Drwy gynnwys cwestiwn yn y gofrestr ynghylch a yw darparwyr yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gallai'r Comisiwn sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
- Rhaid i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â'r gofrestr gael ei wneud yn unol â chanllawiau Safonau'r Gymraeg ar bolisïau a gweithdrefnau.

Crynhowyd nifer o ymatebion sy'n berthnasol i'r maes hwn mewn cwestiynau eraill (gan gynnwys cwestiynau 2, 12 ac 16).

**Cwestiwn 18**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i’w nodi.**

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r ymatebion a nodwyd yng nghwestiwn 18 yn ymwneud â chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, a gellir eu gweld wedi'u crynhoi yno. Roedd amrywiaeth o awgrymiadau, sylwadau a gwybodaeth ychwanegol a oedd y tu allan i'r prif gwestiynau yn yr ymgynghoriad. Mae'r materion ychwanegol wedi'u cofnodi, ac mae'r themâu allweddol sy'n deillio ohonynt wedi'u rhestru isod:

- **Ymchwilio i bryderon** – y potensial i ymestyn cynllun ymchwilio i bryderon, a weithredir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) sy'n gweithredu ar gyfer addysg uwch ar hyn o bryd, ar draws y sector ôl-16.
- **Dull cydweithredol** – awydd i weld parhad o'r cydweithio sy'n bodoli gyda CCAUC ar hyn o bryd pan fydd y Comisiwn yn datblygu ei ddull rheoleiddio.
- **Dull cydlynol** – pwysigrwydd ystyried sut y gellid cymhwyso'r dull o ymdrin â'r system gofrestru i ddatblygu trefn reoleiddio gydlynol i'w chymhwyso i ddarparwyr eraill drwy delerau ac amodau cyllido.
- **Categorïau cofrestru** – pryder nad oes digon o wybodaeth yn ymwneud â'r ddau gategori cofrestru arfaethedig, y goblygiadau i ddarparwyr ac angen canfyddedig am gofrestriad deuol posibl.
- **Trefniadau pontio** – pryder am y costau sy'n deillio o ddatblygu trefniadau interim a phontio.
- **Darparwyr newydd posibl** - y bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â mynediad posibl darparwyr newydd i'r system reoleiddio.
- **Rheoleiddwyr eraill** - efallai y bydd cyfleoedd i'r Comisiwn ystyried y dirwedd reoleiddio ehangach sy'n berthnasol i brifysgolion, gan gynnwys alinio â chyrff rheoleiddio eraill megis Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Pan fo amodau cofrestru'n ymwneud â meysydd y mae rheoleiddwyr statudol eraill yn ymwneud â nhw, bydd angen gofal i osgoi dyblygu a baich rheoleiddio gormodol ar ddarparwyr.
- **Y Brifysgol Agored** – yr angen i gydnabod bod y Brifysgol Agored yn sefydliad sy'n gweithredu ar draws pedair gwlad y DU.
- **Darpariaeth ran-amser** – pwysigrwydd digon o hyblygrwydd yn y system reoleiddio a'r rheoliadau cysylltiedig i alluogi parhau i gael mynediad at gyrsiau addysg uwch rhan-amser a'u cyllido.
- **Amodau cofrestru** – angen i'r Comisiwn, wrth osod y gofynion manwl ar gyfer yr amodau cofrestru cychwynnol, ystyried yr ystod lawn o sefydliadau sy'n gwneud cais i gofrestru a datblygu dull sy'n gymesur â'r risgiau a gyflwynir.
- **Ffioedd dysgu** – pryder am y dull dwy haen o dalu ffioedd dysgu sy'n gysylltiedig â'r ddau gategori cofrestru. Roedd camargraff na allai darparwyr yn y categori 'Amgen' arfaethedig godi'r un ffioedd â darparwyr sy'n cofrestru yn y categori 'Craidd' arfaethedig. Mae'r gwahaniaeth arfaethedig yn ymwneud â lefel y benthyciadau ffioedd dysgu sydd ar gael o dan gyfundrefn cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Roedd y pryder yn ymwneud â darparwyr categori 'Amgen' yn gorfod bodloni'r un amodau â darparwyr categori 'Craidd' ond yn derbyn llai o incwm ffioedd dysgu.
- **Addysg Drawswladol** – gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai addysg drawswladol yn cael ei thrin yn y system gofrestru a'r goblygiadau i gymhwystra darparwr i geisio cofrestru gyda'r Comisiwn.